# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 02/11/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU

***12. Nerys Evans:*** *Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU. OAQ(3)3176(FM) W*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth y DU ar ystod o faterion.

### Rhaglen 'Cymru'n Un'

***13. Darren Millar:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd at gyflawni rhaglen Cymru'n Un. OAQ(3)3183(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni rhaglen 'Cymru'n Un'. Mae'r cynnydd a wneir yn erbyn ymrwymiadau 'Cymru'n Un' yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a'i ddiweddaru bob chwarter. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol bresennol yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir.

### Lles Plant sy'n Ceisio Lloches yng Nghymru

***14. Helen Mary Jones:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglyn â lles plant sy'n ceisio lloches yng Nghymru. OAQ(3)3171(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, wedi cyfarfod â chyfarwyddwr rhanbarthol Asiantaeth Ffiniau'r DU i drafod ystod o faterion sy'n cynnwys lles plant sy'n ceisio lloches. Mae'r trafodaethau hyn yn rhan o ddeialog barhaus ar les plant sy'n ceisio lloches.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)3178(FM), yn ôl.*